

Adran Gwasanaethau Cymorth i Fyfirwyr a Gyrfaoedd

Ein Cenhadaeth

Darparu gwasanaethau proffesiynol sy'n hwyluso a chynorthwyo llwyddiant myfirwyr.

Ein Gweledigaeth

Trwy gydnabod amrywiol anghenion unigolion a chydweithio ag adrannau ledled y sefydliad a thu hwnt, rydym yn defnyddio ein harbenigedd i ymrymuso ac ysbrydoli pawb i ddatblygu eu hannibyniaeth, a'u rhoi mewn sefyllfa i gyflawni eu gwir botensial.

Ein Gwerthoedd

Uniondeb ymhob peth a wnawn, gan weithredu bob amser mewn dull diduedd, anfeirniadol, moesegol a chan barchu ffiniau.

Ymatebol i anghenion, gofynion a blaenoriaethau strategol, trwy sicrhau ein bod yn hawdd troi atom, yn brydlon, yn atebol, yn gweithio'n seiliedig ar dystiolaeth, yn unplyg a hyblyg ein hagwedd.

Yn gynhwysol i bawb trwy ddarparu gwasanaethau sy'n barchus, yn gydymdeimladol, yn hygyrch ac yn ddwyieithog.

Sut yr ydyn ni'n cyflawni hyn

Trwy gydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol i sicrhau bod anghenion myfirwyr yn cael eu diwallu, rydym yn darparu:

- staff arbenigol a chanddynt gymwysterau neu achrediad proffesiynol o'u sefydliadau proffesiynol
- gwybodaeth am ein gwasanaethau ac am faterion pwysig sy'n berthnasol i fyfirwyr trwy amryw gyfryngau, megis taflenni, y we, sgysiau a chyflwyniadau
- adnoddau hunan-gymorth ar-lein i fyfirwyr, megis Blackbullion a'r Big White Wall
- cyngor ac arweiniad uniongyrchol i fyfirwyr ar bob math o faterion sy'n benodol i anghenion yr unigolyn
- gweithdai i fyfirwyr sy'n eu paratoi â sgiliau ar gyfer bywyd prifysgol a thu hwnt
- cyfleoedd profiad gwaith, megis 'Go Wales' a chynllun Aber Ymlaen
- cymorth gan gymheiriaid, mentora a chefnogaeth arbenigol un-i-un i fyfirwyr
- cymorth i staff wrth iddynt ymwneud â myfirwyr, naill ai'n uniongyrchol neu trwy weithdai a hyfforddiant
- polisïau, gweithdrefnau a phrosesau sy'n sicrhau dulliau cyson a thryloyw